# Adran Cymunedau

# Yr hawl i ofyn am ailasesiad

# Ffeithlen 23

**(Medi 2023)**

Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynnal asesiad ohonoch os yw'n ymddangos bod gennych anghenion gofal a chymorth neu os ydych yn ofalwr ac mae'n ymddangos bod gennych anghenion gofal a chymorth, ac rydych naill ai'n breswylydd fel arfer yn Sir Gaerfyrddin, neu yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd ac nid ydych yn breswylydd fel arfer yn unman arall. Yn syml, mae preswylio fel arfer yn golygu lle rydych fel rheol yn byw.

Nid yw'r hawl i gael asesiad o'ch anghenion gofal a chymorth yn golygu y bydd gennych hawl i wasanaethau'r awdurdod lleol i ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth. Yn yr un modd, ni fydd yr awdurdod lleol yn adolygu pob asesiad o'ch anghenion gofal a chymorth yn awtomatig. Fodd bynnag, mae gennych hawl i ofyn i'r awdurdod lleol adolygu asesiad blaenorol ar unrhyw adeg, ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r asesiad hwnnw os oes newid wedi bod yn eich canlyniadau personol a nodwyd, neu os oes newid sylweddol yn eich anghenion neu'ch amgylchiadau chi, neu yn anghenion neu amgylchiadau eich teulu. Yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu a yw'r newid yn sylweddol, gan ystyried y canlynol:

- Eich amgylchiadau personol;
- Eich canlyniadau personol;
- Unrhyw rwystrau newydd sy'n eich atal rhag cyflawni'r canlyniadau hynny;
- Unrhyw risgiau newydd o beidio â chyflawni'r canlyniadau hynny; neu
- Os ydych wedi colli adnodd a oedd yn eich helpu i gyflawni eich canlyniadau e.e. gofalwr a oedd yn gofalu amdanoch yn flaenorol sydd naill ai'n methu neu'n amharod i wneud hynny mwyach.

Lle penderfynir bod newid sylweddol wedi bod yn eich anghenion neu'ch amgylchiadau chi neu rai eich teulu, bydd adolygiad o'r fath yn debygol o gynnwys ailasesiad.

Mae'n bwysig nodi pan fo plentyn sydd ag anghenion gofal a chymorth yn dod yn oedolyn, bydd hyn yn cael ei ystyried yn newid sylweddol mewn amgylchiadau, sy'n rhoi'r hawl i chi gael ailasesiad.

**Sut ydw i'n gwneud cais am ailasesiad?**

Waeth pa mor hir yn ôl oedd eich asesiad diwethaf, gallwch wneud cais am ailasesiad drwy gysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Cyngor Sir Caerfyrddin, drwy ffonio 0300 333 2222, drwy Minicom ar 01554 756741, drwy neges destun: 0789 2345678 neu drwy wneud atgyfeiriad ar ein gwefan http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio ei bod yn ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i adolygu'r asesiad hwnnw a chynnal ailasesiad dim ond os oes newid wedi bod yn eich canlyniadau personol neu newid sylweddol yn eich anghenion neu'ch amgylchiadau chi neu'ch teulu.

Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd yr awdurdod lleol ond yn derbyn cais ar gyfer ailasesiad gan yr unigolyn a gafodd ei asesu yn flaenorol, neu mewn achos plentyn, gan unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hwnnw, megis rhiant, rhywun arall sydd â hawl gyfreithiol i weithredu ar ran yr unigolyn neu ei eiriolwr (â chaniatâd yr unigolyn, os oes ganddynt y gallu i roi caniatâd).

**Beth fydd yr ailasesiad yn ei ystyried?**

Bydd yr ailasesiad yn ystyried union yr un meysydd â'r asesiad blaenorol, gan gynnwys a all darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, neu wasanaethau atal eraill gyfrannu at gyflawni unrhyw ganlyniadau personol newydd neu, fel arall, ddiwallu eich anghenion a nodwyd, ac i ba raddau y gallant wneud hynny.

**A fydd yr ailasesiad yn cael ei gynnal gan yr un person a gyflawnodd fy asesiad gwreiddiol?**

Ni all Cyngor Sir Caerfyrddin warantu y bydd yr un person a ddaeth i'ch asesu yn wreiddiol yn cyflawni eich ailasesiad hefyd. Mewn rhai amgylchiadau lle mae'r awdurdod lleol wedi cytuno i ailasesu eich anghenion am nad oeddech chi'n fodlon â chynnwys yr asesiad blaenorol, efallai na fyddai'n addas i'r un person a gyflawnodd eich asesiad gwreiddiol gynnal yr ailasesiad.

**A yw ailasesiad yr un peth ag adolygiad o gynllun gofal a chymorth?**

Nid yw ailasesiad yr un peth ag adolygiad o gynllun gofal a chymorth. Os oes gennych hawl i gael cynllun gofal a chymorth yn dilyn asesiad o'ch anghenion, yna dylai'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun gofal a chymorth bob 12 mis. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd ar yr awdurdod lleol i adolygu asesiad oni bai fod cais wedi dod i law i gynnal yr ailasesiad a bod eich canlyniadau personol wedi newid, neu fod newid sylweddol yn eich anghenion neu'ch amgylchiadau chi neu rai eich teulu.

**Beth os nad wyf yn cytuno â chynnwys fy asesiad?**

Nid oes rhaid i chi ofyn am ailasesiad dim ond oherwydd eich bod yn anghytuno â chynnwys eich asesiad. Yn y lle cyntaf, gallwch ddweud wrth yr unigolyn a gyflawnodd eich asesiad eich bod yn anghytuno ag elfen benodol o'r asesiad, a gofyn iddo ei newid. Os oes anghydfod rhyngoch chi a'r person a gyflawnodd yr asesiad ynghylch cynnwys yr asesiad hwnnw ac nid oes modd datrys yr anghydfod, gallwch ddefnyddio proses gwynion yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gallai Cyngor Sir Caerfyrddin gytuno â chi mai'r ateb priodol ar gyfer datrys yr anghydfod parhaus ynghylch cynnwys eich asesiad gwreiddiol fyddai cael rhywun gwahanol i gynnal ailasesiad o'ch anghenion gofal a chymorth.

**Mae'r ffeithlen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**
**Os hoffech chi gael y ffeithlen hon mewn unrhyw fformat arall ffoniwch 01267 228703 neu e-bostiwch: gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**